PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD LLUN, 18 GORFFENNAF 2016

Present: County Councillor Clark(Chairperson)
County Councillors Dilwar Ali, Chaundy, Goddard, Hyde, Lomax, Murphy, Robson a/ac Wild

1 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr De'Ath, Graham a Hyde.

2: CROESO

Roedd y Pwyllgor yn falch o gael gwybod am benodiad Davina Fiore fel Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. Byddai'n dechrau yn y swydd ar 19 Medi 2016.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog Monitro Dros Dro, David Marr, am ymgymryd â'r rôl ac am roi cymorth i Aelodau yn ystod y cyfnod hwn.

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Rhan III Cod Ymddygiad yr Aelodau.

4 : CADEIRYDD, AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016, y penodwyd y Cynghorydd Clark yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a bod yr Aelodaeth fel a ganlyn:

Y Cynghorwyr Sir Dilwar Ali, Chaundy, Clark (Cadeirydd), De'Ath, Goddard, Graham, Hyde, Lomax, Murphy, Robson, Benjamin Thomas ac Wild.

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

i. Ymgymryd â swyddogaeth yr awdurdod lleol o ran penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;
ii. Adolygu staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer cyfrifoldebau'r swydd;
iii. Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, ar gyfer y Cyngor llawn mewn perthynas â'r materion hyn.

5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Mawrth 23, 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

6 : DIWEDDARIAD CYFARWYDDIAETH YR UWCH REOLWYR

Roedd y Pwyllgor yn falch o gael gwybod am benodiad Davina Fiore fel Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. Byddai'n dechrau yn y swydd ar 19 Medi 2016.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog Monitro Dros Dro, David Marr, am ymgymryd â'r rôl ac am roi cymorth i Aelodau yn ystod y cyfnod hwn.

7 : DIWEDDARIAD AELODAU'R GWASANAETHAU CYMORTH

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad manwl am faterion yn ymwneud â gwasanaethau cymorth sydd ar gael i Aelodau Etholedig.

Arolwg Aelodau

Croesawodd y Cadeirydd Paul Keeping, Rheolwr Gweithredol Craffu, Gladys Hingco, Rheolwr Ymchwil Craffu a Luke Catterson, Swyddog Ymchwil i'r cyfarfod i gyflwyno'r prif ganfyddiadau ac adborth ar Arolwg Aelodau Mai/Mehefin 2016.

Ymatebodd 44 aelod i'r Arolwg a oedd yn ceisio'r canlynol

- adborth ar fathau amrywiol o gymorth y derbyniodd yr Aelodau yn enwedig mewn Cwrs Sefydlu'r Aelodau; cyfleoedd Dysgu a Datblygu i Aelodau; a Gwasanaethau Cymorth;
- nodi meysydd o welliant; a
- nodi adnoddau a gwasanaethau eraill a fyddai o fudd.

Rhoddodd y swyddogion fanylion graffigol am bob un o'r elfennau a brofwyd gan yr arolwg a thynnon nhw sylw at y prif ganfyddiadau fel a ganlyn: -

- Dywedodd 81% fod gweithgareddau a chyfleusterau sefydlu naill ai'n Ddefnyddiol neu'n Ddefnyddiol iawn;
- Ni fanteisiodd 60% ar gyfleoedd dysgu wedi'u strwythuro, ond o'r 40% a fanteisiodd arnynt, dywedodd 79% fod y cyfleoedd dysgu'n ddefnyddiol, a dywedodd 89% fod y cyfleoedd dysgu'n berthnasol i'w rolau amrywiol;
- Bu 61% naill ai'n hyderus neu'n hyderus iawn i ddod o hyd i wybodaeth ac adnoddau ar System Reoli'r Pwyllgor (Modern.Gov);
- Bu 75% yn hyderus neu'n hyderus iawn i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol amrywiol;
- Rhoddodd 68% ymatebion cadarnhaol pan ofynnwyd iddynt a ydynt wedi cyflawni eu nodau datblygu a dysgu personol o ganlyniad i'r Rhaglen Datblygu Aelodau;
- Bu barn yr ymatebwyr ar y cymorth cyffredinol a roddwyd i Aelodau'n gadarnhaol iawn;
- Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod y mathau amrywiol o gymorth arbenigol yn effeithiol neu'n effeithiol iawn a dywedon nhw fod yr angen am ymchwil annibynnol a chasglu gwybodaeth yn bwysig

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd am gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd ac aelodaeth Pwyllgorau – maes y tynnwyd sylw ato yn adroddiad Asesiad Dilynol

Swyddfa Archwilio Cymru – nodwyd y prif heriau ar gyfer yr Aelodau mewn perthynas â hyn fel a ganlyn:

- cyfyngiadau yn ymwneud â rolau'r Cyngor h.y. Ni all Aelodau Cabinet neu Aelodau Cabinet Cynorthwyol fod yn rhan o Bwyllgorau Craffu;
- cyfrifoldebau teulu a wrthdarwyd ag amseroedd cyfarfodydd;
- hyd ac amseroedd cyfarfodydd
- ansicrwydd am fuddion a chanlyniadau gwaith Pwyllgorau

Nodwyd yr ymatebodd dim ond 18 Aelod o'r 44 i'r cwestiwn yn gofyn am farn Aelodau am y cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, ac o'r 18 hynny, bu 61% yn teimlo nad oedd ganddynt gydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd a nodon nhw ychydig feysydd gwella a fyddai'n gwneud rôl y Cynghorydd yn fwy effeithiol: -

- gwella sut y rheolir agendau a hyd cyfarfodydd;
- Parcio dynodedig ar ddiwrnodau cyfarfod y Pwyllgor;
- Lluniaeth pan ddisgwylir i gyfarfodydd fod yn hir;
- Cymorth gyda gwaith achos, yn enwedig dilyn ymatebion ac ymholiadau cyfredol Aelodau;
- Cyfleoedd dysgu ar gyfer rheoli llwythi gwaith yn effeithiol

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad a gwahoddodd drafodaeth ar y canfyddiadau y gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau ac arsylwadau canlynol amdanynt: -

- Roedd yr Arolwg yn rhy hir ac yn anodd ei gwblhau ar-lein a gallai gymryd hyd at 35 munud i gwblhau;
- Dylai fod modd edrych ar gofnodion hyfforddi unigol Aelodau;
- Roedd pryderon am y niferoedd sy'n ymgymryd â hyfforddiant hanfodol. Nodwyd y byddai'r mater penodol hwn yn cael ei ystyried gan Grŵp Llywio Datblygu'r Aelodau ac yn rhan o Gwrs Sefydlu Aelodau newydd yn 2017;
- materion cyfredol gydag ymatebion i Ymholiadau Aelodau a gwaith achos, yn enwedig amseroldeb ymatebion; ymatebion heb eu cwblhau; eglurder ymatebion yn enwedig yn ymwneud â materion tebyg (e.e. adroddiadau lluosog ar sgipiau mewn un ardal neu ffordd); a chau achosion heb roi gwybod i'r Aelod pan fo camau gweithredu wedi'u cwblhau;
- angen osgoi dyblu gwybodaeth a roddir mewn fforymau a phwyllgorau gwahanol; Gill
- angen cael mynediad at wybodaeth a fyddai'n cefnogi rolau amrywiol Aelodau fel meincnodau ac arfer da; dogfennau ymchwil; a pholisi neu ganllawiau Llywodraeth Cymru;
- gwelliannau i gyfathrebiadau a dolenni electronig i wybodaeth berthnasol gan gynnwys briffiau wedi'u hysgrifennu; Cwestiynau Cyffredin; a deunyddiau hyfforddi;
- angen i Aelodau gael gwybod a chael mynediad at siart trefniadol cyfredol yr Uwch Reolwyr a rheolwyr cyfarwyddiaeth a prif gysylltiadau cyfarwyddiaeth;
- pryderon am newid lleoliad Swyddfa Fusnes Aelodau yn Neuadd y Ddinas, oleuadau gwael, cyfleusterau gwael a materion mynediad trwy nifer o ddrysau diogelwch a'r angen i ddiweddaru cardiau mynediad Aelodau'n rheolaidd;
- Nodwyd yr Aelodau ychydig ffyrdd o wella cyfleusterau Aelodau Neuadd y Sir yn enwedig creu mwy o leoedd gwaith a gwella dodrefn;
- pryderon na welodd yr Aelodau fuddion eu cynnyrch o Bwyllgorau, yn enwedig y cwestiynodd 33% o Aelodau werth mynychu cyfarfodydd craffu a chyfarfodydd eraill;
- Nodwyd yr Aelodau'r materion a godwyd ynghylch cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Teimlwyd y teimlodd y rhan fwyaf o bobl a gwblhawyd yr arolwg fod bod

yn Gynghorydd yn golygu bod gennych gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd sy'n wahanol iawn. Cydnabu'r swyddogion fod angen gwaith pellach i egluro a oedd hyn yn broblem sylweddol ar gyfer unrhyw grwpiau penodol o Aelodau E.e. Aelodau Cabinet neu Aelodau Craffu;

- Teimlodd Aelodau ei bod yn bwysig cyhoeddi calendr o gyfarfodydd o leiaf 12 mis o flaen llaw ac na fyddai'r dyddiadau hyn yn newid.
- Holodd yr Aelodau am sefyllfa ddiweddaraf y Bil Llywodraeth Leol, a nodwyd y gwnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol newydd ddatganiad yn dangos ei fod am adolygu'r cynigion cyfredol ar ôl iddo gael ei benodi cyn cyhoeddi'r camau nesaf.

Cymorth i Aelodau

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ers ei gyfarfod diwethaf ym mis Mawrth ar yr argymhellion yn ei adroddiad ar Adolygu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau. Disgwyliwyd am ymateb ffurfiol i'r argymhellion yn yr adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa gyfredol yr adolygiad wedi'i gomisiynu gan y Cabinet o gymorth sydd ar gael i Gynghorwyr, a hwyluswyd gan Claire Richmond, cyn-swyddog polisi yng Nghyngor Dinas Nottingham. Roedd y fethodoleg a oedd yn rhan ohono mewn 3 cham:

- Cam1 – cadarnhau sefyllfa ac arferion cyfredol;
- Cam 2 – meincnodi gyda Dinasoedd Craidd;
- Cam 3 – argymhellion i gefnogi democratiaeth yng Nghaerdydd yn well yng nghyd-destun arolygiadau allanol; cyfyngiadau ar gyllideb a newid fframwaith deddfwriaethol.

Cafodd Cam 1 a Cham 2 eu cwblhau ym mis Mai a mis Mehefin 2016 a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i Gabinet anffurfiol ym mis Gorffennaf 2016. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i fod gallu ystyried yr argymhellion ochr yn ochr â chanlyniadau'r Arolwg Aelodau 2016; Adroddiad Dilynol Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru – Datganiad Gweithredu a'i adroddiad Grŵp Gorchwyl ei hun a pharatoi cynllun gweithredu.

Cododd yr Aelodau nifer o faterion cyfredol yn ymwneud â'r canlynol:

- gwybod lle a sut i gael gwybodaeth;
- cyfathrebu gwell ac ymgysylltu cynharach gydag Aelodau am faterion yn ymwneud â materion a blaenoriaeth e.e. Adran 106 cyllid rhwymedigaeth a chanfod projectau â blaenoriaeth;
- angen i holl Aelodau ward yn enwedig y rhai mewn wardiau sy'n amrywiol o ran gwleidyddiaeth gael eu cynnwys mewn penderfyniadau.

System Ymholiadau Aelodau (MES)

Nododd yr Aelodau ddata chwarterol ar nifer y galwadau a gofrestrwyd gan Gynghorwyr i'r MES. Nodwyd bod nifer y galwadau wedi aros yn gyson. Teimlwyd bod y lefel hwn o ymholiadau a cheisiadau ar gyfer y gwasanaethau eithaf isel o ystyried nifer yr Aelodau'n defnyddio'r system. Ond nododd y Pwyllgor adborth gan Aelodau eu bod yn aml yn rhoi gwybod am faterion yn uniongyrchol i'r swyddogion a gan swyddogion, sy'n rhoi aelodau ar y mainc gefn, yn gofyn am ymatebion gan Aelodau Cabinet am faterion yn ymwneud ag ymholiadau. Roedd angen gwerthuso'r rhesymau dros hyn ymhellach.

Holodd Aelod a allai trigolion ddefnyddio system debyg i gofrestru materion i osgoi delio â’r un ymholiadau fwy na unwaith, a chyflymu’r datrysiad. Rhoddwyd gwybod i Aelodau y disgwylir i System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) gael ei lansio a fyddai'n fwy rhyngweithiol i drigolion ac â'r cyfleuster i logio materion yn uniongyrchol.

Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor am bwysigrwydd defnyddio’r MES fel y casglir y data mewn un lle gan fod hyn yn galluogi dadansoddi tuedd; osgoi dyblu galwadau; a dilyn proses. Nodwyd nad oedd yr Aelodau yn hapus o hyd gydag amseroldeb ac eglurder ymatebion.

Project TG Aelodau

Cwblhawyd y trefniadau pontio ar gyfer dyfeisiau newydd ym mis Mehefin 2016, gyda 26 Aelod yn defnyddio'r llechen newydd; dywedodd 3 aelod nad oeddem am gael llechen; ac roedd 3 galwad ar agor o hyd yn aros naill ai i gael llechen neu am benderfyniad ar a ydyn nhw am gael llechen. Rhoddwyd y Pwyllgor wybod bod cyfle i Aelodau nad oes ganddynt lechen ar hyn o bryd i gyfnewid eu hoffer cyfredol, ac roedd 1 Aelod gymryd y cyfle i newid dyfais Xtreme am lechen. Byddai adborth am y difais newydd yn cael ei brofi cyn y cyfarfod nesaf. Ond mae adborth anecdotaidd wedi bod yn gadarnhaol am gysylltedd, hygyrchedd a defnyddioldeb o’r ddyfais newydd gydag ychydig o faterion achlysurol wrth gysylltu â Wi-Fi y mae TG wedi cael gwybod amdanynt. Mae cesys amddiffynnol â bysellfyrddau wedi'u prynu ac mae 18 wedi'u rhoi hyd yn hyn. Roedd y Pwyllgor a’r tîm Gwasanaethu Aelodau wedi bwrw eu targed i argraffu llai ar gyfer 2015/16 ac roedd ganddynt darged pellach ar gyfer 2016/17, ac felly byddant yn parhau i geisio cyflawni eu nodau ‘llai o bapur’.

Yn gyffredinol, mynegodd yr Aelodau bryderon am ddibynadwyedd system TGCh y Cyngor gan ei bod wedi methu'n fwy ag arfer yn ddiweddar.

Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau

Atgoffwyd y Pwyllgor y rhoir y cyfle i'r holl Aelodau Etholedig i gwblhau Adroddiad Blynyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r adroddiad blynyddol yn manylu ar waith y Cynghorydd dros y flwyddyn ddiwethaf ac fe'i gyhoeddir yn ddwyieithog ar dudalennu unigol yr Aelodau. Byddai copi’r o’r templed a’r canllaw yn cael ei roi i'r Aelodau i'w gwblhau, ac ar yr amod bod adnoddau ar gael, byddai rhywfaint o'r data ar bresenoldeb a hyfforddiant yn cael ei boblogi o flaen llaw.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW): Lwfans Gofal

Derbyniodd yr Aelodau gopi o ganllawiau cyfredol y Cyngor ar Lwfans Gofal a ddefnyddiwyd y geiriau o’r IRPW. Roedd yr Aelodau yn gofidio bod angen i’r ddogfen fod yn fwy hawdd ei defnyddio a bod angen i'r defnydd o iaith fod yn fwy gwahoddgar ac anffurfiol, i annog Aelodau i fanteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt i ymgymryd â’u rolau; na ddylid ystyried derbyn y lwfans o’r fath fel rhywbeth sy’n wahanol i’r arfer. Teimlwyd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn denu aelodaeth fwy amrywiol. Teimlwyd bod yr Aelodau yn derbyn cyhoeddusrwydd niweidiol sy’n eu hatal rhag derbyn y cymorth pwysig hwn.

Awgrymwyd bod y Cadeirydd, yn ei chyfarfod blynyddol gyda'r IRPW, yn tynnu ei sylw at bryderon y pwyllgor hwn.

PENDERFYNWYD – bod

1. y Pwyllgor wedi derbyn a nodi'r trosolwg o ganfyddiadau Arolwg Aelodau 2016 a bod y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i lywio'r canlynol: -
    - Grŵp Llywio Datblygu Aelodau;
    - Sefydlu ar gyfer 2017;
    - y cynllun gweithredu i gael ei baratoi ochr yn ochr ag Adroddiad Adolygu Cynghorwyr wedi'i gomisiynu gan y Cabinet ac adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymorth i Aelodau.

2. cais yn cael ei wneud i'r Cabinet bod yr adroddiad Adolygu Cymorth i Gynghorwyr a ddechreuwyd ganddo yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor;

3. y templed ar gyfer adroddiadau Blynyddol Aelodau'n cael ei boblogi gyda data aelodau a'u cylchredeg i gynorthwyo yn y gwaith o gwblhau'r broses;

4. adolygiad yn cael ei wneud o iaith a chynnwys dogfen Lwfans Gofal y Cyngor yn ogystal â thrafodaeth yn yr hydref gyda Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar lwfansau gofal a nifer yr Aelodau yng nghyfarfod y Panel yn yr Hydref;

5. y sylwadau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor ar ddibynadwyedd y gwasanaeth TGCh yn cael eu codi gyda Phennaeth Technoleg Gwybodaeth.

8 : DIWEDDARIAD DYSGU A DATBLYGU AELODAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gyfleoedd dysgu a datblygu Aelodau wedi'u cynnal ers y cyfarfod diwethaf, ac yn rhan o ystyried yr eitem hon cyfeiriodd yr Aelodau at ganlyniadau Arolwg Aelodau 2016 a dderbyniodd yn gynharach yn y cyfarfod.

Yn ogystal â hyn, cynigiwyd bod y Grŵp Llywio Datblygu Aelodau'n cael ei ail-sefydlu i gwrdd i gwblhau'r rhaglen ddysgu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a bod cyfarfod ar wahân yn cael ei drefnu i dderbyn barn Aelodau ar Sefydlu Aelodau ar gyfer 2017. Byddai hyn hefyd yn cyflawni'r camau gweithredu sy'n dod o adroddiad Dilynol Asesiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016 a'r Datganiad Gweithredu y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Mawrth 2016 mewn perthynas â chryfhau datblygu a sgiliau a dealltwriaeth aelodau; a pharatoi ar gyfer gweinyddu newydd.

Nododd Aelodau hefyd waith Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Swyddogion Gwasanaethau Aelodau ar Ganllaw Cynghorwyr newydd ar gyfer ymgeiswyr newydd a bod cyfle i hybu rôl cynghorydd yn rhan o Wythnos Ddemocratiaeth Leol 10 - 16 Hydref 2016.

Gwahoddodd y Cadeirydd drafodaeth a gwnaethpwyd yr arsylwadau canlynol:

- pwysigrwydd cynllun Mentora i Gynghorwyr newydd sy'n defnyddio Cynghorwyr profiadol, Cynghorwyr o Awdurdodau Lleol eraill os yw'n briodol a chynghorwyr cyfoed o CLILC;
- Roedd yr Aelodau yn awyddus i gymryd perchenogaeth fwy o'u hyfforddiant a'u nodau ac ystyriaeth o gyfleoedd dysgu y tu allan i baramedrau'r rhaglen. Yn hyn o beth, byddai angen hunan-asesu a nodi anghenion hyfforddi ac adolygu'r adnoddau sydd ar gael;
- Cydnabu'r Aelodau y byddai cyfeirio Aelodau at wybodaeth berthnasol; briffio, a chanllawiau defnyddwyr o fydd;
- Roedd yn bwysig ar gyfer datblygu unrhyw raglen y nodwyd anghenion hyfforddi a bod dull cyson i hyfforddiant Sefydlu ar gyfer yr holl aelodau;
- rhannwyd cyfle arfaethedig Grŵp Llywio Datblygu Aelodau yn ddau lif gwaith
    - Rhaglen ddysgu a datblygu Aelodau Medi 2016 – Mawrth 2017;
    - Cwrs Sefydlu i Aelodau 2017.

  Ceisiodd enwebiadau ar gyfer y Grŵp i gwrdd ym mis Awst a mis Medi ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Medi.
- Ailadroddodd yr Aelodau bwysigrwydd darparu amrywiaeth o ddulliau ar gyfer derbyn gwybodaeth, briffiau a chyfleoedd dysgu;
- Pwysigrwydd nodi dysgu 'gorfodol' a sut byddai cydymffurfiaeth yn cael ei monitro a sut eir i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth;
- ystyried cyrsiau achrededig;
- buddion meincnodi/arfer da gan Awdurdodau Lleol eraill – er y cydnabu mai nod cwricwlwm Cwrs Sefydlu CLILC 2017 yw sicrhau cysondeb cynnig gwybodaeth a dysgu yn y cyfnod sefydlu ar gyfer Aelodau newydd;
- pwysigrwydd hyfforddiant Llywodraethwyr i'r holl Aelodau;
- cynnal/rhannu cyfleoedd dysgu ar y cyd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a Chynghorau Lleol a fydd yn cynorthwyo rhwydweithio a rhannu syniadau;
- Cynhyrchu taflen raglen dysgu ar bob cwrs sydd ar gael; modiwlau ar-lein; presenoldeb mewn cynadleddau; cyfleoedd mentora; Cwestiynau Cyffredin fel sut i gyflwyno mewn pwyllgor cynllunio neu drwyddedu.

Wrth grynhoi, roedd y Cadeirydd yn awyddus i bwysleisio'r gwaith a wneid gan Grŵp Llywio Datblygu Aelodau y llynedd i ddatblygu rhaglen; nifer a mathau y digwyddiadau / cyfleoedd ar gyfer dysgu sydd ar gael ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn; pwysigrwydd rhannu'r wybodaeth hon gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac ymgysylltu gwell gyda Pwyllgor Safonau a Moeseg. Dywedodd Hollie Edwards y byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar 20 Gorffennaf 2016.

PENDERFYNWYD – bod

(1) y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu i swyddog cleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru ar ran y Cyngor i drefnu cyfarfod i drafod y cefndir i'w hargymhellion yn yr asesiad Dilynol mewn perthynas â hyfforddiant a Sefydlu Aelodau;

(2) yr Aelodau canlynol yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd y Grŵp Llywio Datblygu Aelodau;

- Aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Y Cynghorwyr Clark, Dilwar Ali, Goddard a Murphy;
- Yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros ddemocratiaeth, Y Cyng De'Ath;
- Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg;

- Chwipiau’r Grwpiau Plaid

9 : ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Mae Drafft cyntaf Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 2015/16 wedi’i baratoi i gael sylwadau gan y Pwyllgor ar arddull a chynnwys.

Pwysleisiodd Aelodau y dylid cydnabod y prif ganlyniadau wedi’u cyflawni yn y 12 mis diwethaf; bod y cymorth i Aelodau a roddwyd gan y tîm yn dda iawn; ac na ddylai bod unrhyw doriadau pellach i wasanaethau cymorth i Aelodau yn y gyllideb y flwyddyn nesaf.

Teimlodd Aelodau fod nifer o benawdau y gellid eu hymestyn yn enwedig: -

- Manylion am yr holl bynciau cwrs hyfforddi a gynigir dros y flwyddyn;
- Cynnwys adran Blaen-gynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf;
- Bod rhagair y Cadeirydd yn tynnu sylw at faterion yn ymwneud â chanlyniadau adolygu Gwasanaethau Cymorth Aelodau; a phenderfyniadau yn y dyfodol ar adnoddau a chyllideb.

10 : BLAENGYNLLUN PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD – EITEM I’W THRAFOD.

Trafododd y Pwyllgor eitemau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a oedd yn cynnwys:

- Adroddiad gan Grŵp Llywio Datblygu Aelodau;
- Cwrs Sefydlu i Aelodau 2017;
- Diweddariad Adolygiad Aelodau’r Gwasanaethau Cymorth
- Adolygu Strategaeth Datblygu Aelodau;
- Llawlyfr Aelodau Drafft;
- Adolygu’r Cynllun Mentora;
- Cynllun Lwfans Gofal wedi'i Ddiwygio;
- Wythnos Ddemocratiaeth – Rôl a chyfrifoldebau Cynghorydd;
- Adolygu cyfleusterau ystafell yr Aelodau gan gynnwys gorsafoedd gwaith;
- Fframwaith Datblygu Personol;
- Ymchwil pellach ar Gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd;
- Diweddariad ar Wasanaeth Llyfrgell Ar-lein i Aelodau a chymorth ymchwil a gwybodaeth annibynnol.

PENDERFYNWYD – y caiff y cynllun gwaith ei flaenoriaethu a’i ddatblygu mewn cydweithrediad â Chadeirydd y Pwyllgor a phrif swyddogion y Cyngor.

11 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

21 Medi 2016 am 10.00am yn Ystafell Bwyllgor 4 ar yr amod nad yw’r dyddiad hwn yn gwrthdaro â chynadleddau blynyddol gwleidyddol.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm)*

Cadeirydd: ____________________

Dyddiad: _________________

***This document is available in Welsh / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg***